

Telerau ac Amodau Aelodaeth Ffitrwydd Casnewydd Fyw

Dylech ddarllen a deall telerau ac amodau'r aelodaeth cyn llofnodi'r Ffurflen Gais Aelodaeth.

1. Diffiniadau

- i. CF: Casnewydd Fyw
- ii. Aelod: Mae'r person a dderbyniwyd i ddod yn aelod o'r Cynllun o leiaf 11 oed. Os yw'r aelod o dan 18 oed, mae'n rhaid i riant neu warcheidwad yr aelod weithredu fel gwarantydd ar gyfer yr aelodaeth a bydd yn gyfrifol am dalu'r aelodaeth ac yn gorfod llofnodi'r ffurflen gais.
- iii. Cynllun: Y cynllun aelodaeth sy'n cael ei redeg gan Gasnewydd Fyw yr ydych wedi cytuno i ymuno ag ef, fel y cyfeirir ato yn y ffurflen gais aelodaeth.

2. Hawliau Aelodaeth

- a. Caiff pob cwsmer sy'n defnyddio aelodaeth gerdyn aelodaeth. Bydd y cerdyn aelodaeth hwn yn parhau'n eiddo i Gasnewydd Fyw, bydd gofyn i unrhyw unigolyn sy'n colli neu'n difrodi'r cerdyn aelodaeth hwn brynu un newydd.
- b. Mae'n bosibl y bydd yr aelodaeth yn cynnwys y gweithgareddau canlynol, gwiriwch yr Aelodaeth am ragor o fanylion.
- c. Campfa - Oedolyn - ar ôl cwblhau Datganiad Ymrwymiad Iechyd ac un ai sesiwn Croesawu Aelod, neu lofnodi Ffurflen Optio Allan o Sesiwn Sefydlu.
- d. Campfa - Ieuentid rhwng 11 ac 16 oed - ar ôl cwblhau Holiadur Parodrwydd Cyn-Ymarfer wedi'i lofnodi gan oedolyn perthnasol a mynychu sesiwn Croesawu Aelod.
- e. Nofio yn ystod amseroedd Nofio Cyhoeddus.
- f. Dosbarthiadau Ymarfer Corff Grŵp - yn ôl disgresiwn Hyfforddwr y Dosbarth, rhowch wybod am unrhyw faterion cyn i'r Dosbarth ddechrau. Mae Dosbarthiadau oedran penodol ar gyfer pobl ifanc 11+ oed wedi'u nodi ar yr Amserlen Ymarfer Corff Grŵp. Rhaid i bobl 11-16 oed fod yng nghwmni oedolyn.
- g. Chwaraeon Raced
 - I. Un cwrt 60 munud o fadminton, tenis a thenis bwrdd y dydd.
 - II. Uchafswm o 4 person ar y cwrt gan gynnwys yr aelod a archebodd yn rhan o'r aelodaeth.
 - III. Os yw oedolion a phobl iau yn chwarae gyda'i gilydd, bydd y pris Oedolyn yn berthnasol.
 - IV. Rhaid i chwaraewyr wisgo dillad ac esgidiau addas.
 - V. Ni chaniateir bwyd na diod ar y cwrt. Rhaid cadw dŵr mewn cynwysyddion addas ar ochr y cwrt heb rwystro'r llwybr gerdded.
 - VI. Ni ddylid gadael unrhyw sbwriel ar y cwrt ac mae'n rhaid ei waredu'n ddiogel yn y biniau pwrpasol.
 - VII. Dim ond hyfforddwyr sydd wedi'u hawdurdodi all hyfforddi ar Gyrtiau Tennis Casnewydd Fyw oni bai bod y Rheolwr Tennis yn rhoi caniatâd yn ysgrifenedig ymlaen llaw.
 - VIII. Mae cyfleusterau Hyfforddiant Preifat ar gael yn amodol ar ffi cwrt lawn ac awdurdodiad ymlaen llaw gan y Rheolwr Tennis cyn 9am o ddydd Llun i ddydd Gwener.

3. Aelodaeth Flynyddol

- a. Does dim modd ad-dalu aelodaeth flynyddol ac mae'n rhaid talu'n llawn wrth ymuno â'r Cynllun.
- b. Pan fydd yr aelodaeth yn dod i ben, bydd yn mynd yn ôl i dalu wrth chwarae oni bai eich bod yn talu am aelodaeth bellach.

4. Aelodaeth 3 Mis

- a. Does dim modd ad-dalu'r math hwn o aelodaeth ac mae'n rhaid talu'n llawn wrth ymuno â'r Cynllun.
- b. Pan fydd yr aelodaeth yn dod i ben, bydd yn mynd yn ôl i dalu wrth chwarae oni bai eich bod yn talu am aelodaeth bellach.

5. Aelodaeth Fisol - O leiaf 2 fis

- a. Byddwch yn cofrestru ar gyfer cytundeb o leiaf 2 fis; bydd 1 rhandaliad yn daladwy wrth ymuno, ac wedyn 1 rhandaliad misol trwy ddebyd uniongyrchol.
- b. Rydych yn deall y bydd eich aelodaeth (taliadau debyd uniongyrchol) yn parhau y tu hwnt i'r telerau gofynnol a amlygir uchod nes eich bod yn canslo eich aelodaeth. Gweler y rhan Canslo Aelodaeth Fisol i gael rhagor o fanylion.

6. Oedolion 60

- a. Rhaid cyflwyno tystiolaeth o'ch oedran cyn dechrau ar Aelodaeth Oedolion 60 ac Aqua 60.
- b. Mae hyn yn cynnwys y Gampfa, Nofio, Dosbarthiadau Ymarfer Corff Grŵp a Chwaraeon Raced

7. Aelodaeth Aqua 60

- a. Rhaid cyflwyno tystiolaeth o'ch oedran cyn dechrau ar Aelodaeth Oedolion 60 ac Aqua 60.
- b. Mae'n cynnwys nofio a Dosbarthiadau Ymarfer Corff Aqua mewn Grŵp yn unig.

8. Aelodaeth Gorfforaethol

- a. Rhaid i chi gyflwyno tystiolaeth o gyflogaeth (un ai slip cyflog diweddaraf neu Fathodyn Adnabod Cwmni) cyn i chi allu ymuno â'r aelodaeth a defnyddio'r cyfleusterau. Bydd methu gwneud hynny'n arwain at ganslo'r aelodaeth.
- b. Mae hyn yn cynnwys y Gampfa, Nofio, Dosbarthiadau Ymarfer Corff Grŵp a Chwaraeon Raced
- c. Bydd CF yn gweinyddu aelodaeth gorfforaethol ar ran y partneriaid corfforaethol. Y partneriaid corfforaethol fydd yn rheoli ac yn hyrwyddo'r cynlluniau hyn ymysg cyflogeion partneriaid corfforaethol ac nid CF.
- d. Ceidw CF yr hawl i gysylltu â'ch cyflogai ar unrhyw adeg i gadarnhau eich cyflogaeth, ac felly eich cymhwysedd ar gyfer y cynllun.
- e. Rhaid i aelodau presennol sydd am drosi i becyn corfforaethol roi 28 diwrnod o rybudd i CF. Nid oes modd ôl-ddyddio'r raddfa gorfforaethol i aelodau presennol sy'n trosglwyddo i'r raddfa gorfforaethol.

- f. Rhaid i chi gyflwyno tystiolaeth o'ch cymhwysedd cyn ymuno â'r math hwn o aelodaeth a defnyddio'r cyfleusterau. Bydd methu gwneud hynny'n arwain at ganslo'r aelodaeth.

9.Aelodaeth Gonsesiynol

- a. Bydd gofyn i chi ddangos tystiolaeth o'ch cymhwysedd bob blwyddyn, ar neu'n fuan ar ôl y dyddiad blynyddol y gwnaethoch ymuno â'r aelodaeth i barhau â'r aelodaeth ar raddfa gonsesiynol
- b. Mae hyn yn cynnwys y Gampfa, Nofio, Dosbarthiadau Ymarfer Corff Grŵp a Chwaraeon Raced
- c. Rhaid i aelodau presennol sydd am drosi i becyn consesiynol roi 28 diwrnod o rybudd i ni. Nid oes modd ôl-ddyddio'r raddfa gonsesiynol i aelodau presennol sy'n trosglwyddo i'r raddfa gonsesiynol.

10.Aelodaeth i Fyfyrrwyr

- a. Rhaid i chi gyflwyno tystiolaeth o fod yn fyfyrwr llawn amser cyn gallu ymuno â'r Aelodaeth i Fyfyrrwyr a defnyddio'r cyfleusterau. Bydd methu gwneud hynny'n arwain at ganslo'r aelodaeth.
- b. Mae hyn yn cynnwys y Gampfa, Nofio, Dosbarthiadau Ymarfer Corff Grŵp a Chwaraeon Raced
- c. Gallwch rewi eich aelodaeth am fis yn ystod y Nadolig, Pasg a Gwyliau'r Haf drwy ffonio 01633 656757 o leiaf 5 diwrnod gwaith cyn y dyddiad yr hoffech rewi eich aelodaeth.
- d. Bydd gofyn i chi ddangos tystiolaeth eich bod yn fyfyrwr llawn amser bob blwyddyn, ar neu'n fuan ar ôl y dyddiad blynyddol y gwnaethoch ymuno â'r aelodaeth ar raddfa i fyfyrwr.

11.Aelodaeth Ieuenctid

- a. Rhaid i chi gynnig tystiolaeth eich bod rhwng 11 ac 16 oed.
- b. Mae hyn yn cynnwys y Gampfa, Nofio, Dosbarthiadau Ymarfer Corff Grŵp a Chwaraeon Raced
- c. Cyn defnyddio unrhyw Gampfa Casnewydd Fyw.
 - I. Rhaid i Riant/Gwarcheidwad gwblhau Holiadur Parodrwydd Cyn Gweithgareddau ar ran y person ifanc.
 - II. Rhaid i'r person ifanc gael sesiwn Croesawu Aelod cyn defnyddio unrhyw Gampfa Casnewydd Fyw
 - III. Rhaid i bobl rhwng 11 ac 13 oed fod yng nghwmni oedolyn
 - IV. Gall pobl ifanc 14 i 16 oed ddefnyddio'r Gampfa heb oedolyn ond mae'n rhaid glynu at ymddygiad priodol yn y gampfa.
- d. Mae'r Ystafell Pwysau Rhydd ar gael i bobl 17+ oed yn unig.
- e. Mae'n bosibl y bydd gofyn i bobl ifanc adael y Gampfa os nad ydynt yn ymarfer
- f. Byddwn yn cysylltu â phobl ifanc cyn eu pen-blwydd yn 17 oed er mwyn iddynt ddewis Aelodaeth arall.

12. Aelodaeth Nofio

- a. Mae'n cynnwys nofio yn unig.

13. Aelodaeth Dosbarthiadau

- b. Dosbarthiadau Ymarfer Corff Grŵp yn unig.

14. Aelodaeth Teulu Cyflogai.

- a. Ar gael i briod a phlant sy'n oedolion unrhyw Aelodau sydd ag Aelodaeth Cyflogai gyfredol.
- b. Mae hyn yn cynnwys y Gampfa, Nofio, Dosbarthiadau Ymarfer Corff Grŵp a Chwaraeon Raced
- c. Rhaid cyflwyno tystiolaeth o fod yn byw yn yr un cyfeiriad â'r Aelod sydd ag Aelodaeth Cyflogai.
- d. Os yw'r Aelod ag Aelodaeth Cyflogai yn canslo'r Aelodaeth, byddwn yn cysylltu â chi er mwyn i chi ddewis Aelodaeth arall.

15. Aelodaeth Aqua 60

- a. Rhaid cyflwyno tystiolaeth o'ch oedran cyn dechrau ar Aelodaeth Aqua 60.
- b. Mae'n cynnwys nofio a Dosbarthiadau Ymarfer Corff Aqua mewn Grŵp yn unig.

16. Aelodaeth Teulu

- a. Ar gael i hyd at 4 o bobl, uchafswm o 2 oedolyn.
- b. Mae hyn yn cynnwys y Gampfa, Nofio, Dosbarthiadau Ymarfer Corff Grŵp a Chwaraeon Raced
- c. Gellir ychwanegu aelodau eraill am £18.40 yr oedolyn a £10.00 y plentyn os ydynt yn byw yn yr un cyfeiriad, neu os oes gan un o'r oedolion arweiniol gyfrifoldeb rhiant am blant ychwanegol
- d. Mae'n cynnwys Nofio, y Gampfa, Dosbarthiadau Ymarfer Corff Grŵp, Chwaraeon Raced, Sesiynau Sgil a Dril ac un tocyn Sinema Teulu fesul mis (dim ond yn Swyddfa Docynnau Glan yr Afon y mae modd trefnu'r rhain).

17. Aelodaeth ISP

- a. Ar gael i'r rheiny sydd am ymuno â Chlwb Nofio a Pholo Dŵr Dinas Casnewydd.
- b. Mae'n cynnwys Hyfforddiant Criw Clwb Nofio a Nofio yn ystod Sesiynau Nofio Cyhoeddus ar gyfer Academiâu 7a/7b/8, Datblygiad Glas/Gwyrdd, Aelodaeth Glas/Gwyrdd Bosibl.
- c. Mae'n cynnwys Hyfforddiant Criw Clwb Nofio, Nofio yn ystod Sesiynau Nofio Cyhoeddus, y Gampfa a Dosbarthiadau Ymarfer Corff Grŵp ar gyfer Aelodaeth Elît, ac Aelodaeth Perfformiad Glas/Gwyrdd.
- d. Bydd hefyd angen i aelodau gofrestru ar Borth Nofio Hy-Trek Clwb Nofio a Pholo Dŵr Dinas Casnewydd ar gyfer y taliad ychwanegol gorfodol a ffi flynyddol Nofio Cymru.
- e. Gellir ehangu Aelodaeth Teulu ISP i gynnwys hyd at 4 o bobl sy'n gysylltiedig â'r Aelod ISP.

18. Aelodaeth Teulu ISP

- a. Ar gael ar gyfer hyd at 4 o bobl sy'n perthyn i Aelod ag Aelodaeth ISP gyfredol.
- b. Os yw'r Aelod ag Aelodaeth ISP yn canslo'r Aelodaeth, byddwn yn cysylltu â chi er mwyn i chi ddewis Aelodaeth arall.
- c. Mae'n cynnwys y Gampfa, Nofio a Dosbarthiadau Ymarfer Corff Grŵp.

19. Aelodaeth Gwersi Nofio Iau

- a. Mae'r aelodau gwersi nofio yn cynnwys 1 gwers nofio 30 munud yr wythnos gyda hyfforddwr cymwysedig a nofio diderfyn i'r aelod yn ystod amserau nofio cyhoeddus ym mhob cyfleuster hamdden.
- b. Mae Casnewydd Fyw yn gweithredu rhaglen barhaus sy'n rhedeg trwy 51 wythnos o'r flwyddyn. Bydd aelodau sy'n cael mynediad at yr aelodaeth gwersi nofio yn derbyn tair wythnos rydd y flwyddyn a fydd yn darparu ar gyfer unrhyw gansladau annisgwyl ayyb. Cyfrifir ffioedd Debyd Uniongyrchol yn ôl nifer y gwersi nofio dros gyfnod o 12 mis, felly mae hyn yn cynnwys 48 wythnos/gwers (y telir amdanynt).
- c. **Rhewi eich Aelodaeth Gwersi Nofio**
 - I. Mae'n bosibl y bydd CF yn caniatáu i'ch aelodaeth gwersi nofio gael ei rhewi mewn achosion eithriadol ac yn ôl ei hawl i benderfynu. Mae'n bosibl y bydd hyn yn cynnwys achosion pan fydd cyflwr meddygol yn atal aelod rhag defnyddio cyfleusterau am gyfnod o fis o leiaf. Rydym yn cadw'r hawl i ofyn am dystiolaeth er mwyn cefnogi'ch cais cyn gwneud y penderfyniad.
 - II. Wrth ddychwelyd i'r rhaglen ni allwn warantu y bydd lle ar gael yn eich dosbarth blaenorol, fodd bynnag byddwn yn gallu, lle bynnag sy'n bosibl, rhoi lle i chi mewn dosbarth arall ar yr un lefel – mae'n bosibl y bydd hyn ar ddiwrnod arall, ar adeg arall neu mewn cyfleuster hamdden arall.
 - III. Dylid gwneud unrhyw gais i rewi aelodaeth i'r Tîm Aelodaeth trwy ffonio 01633 656757 neu drwy e-bost i membership@newportlive.co.uk o leiaf 5 diwrnod gwaith cyn y dyddiad pan fyddwch yn dymuno i'ch aelodaeth gael ei rhewi.
- d. **Methu gwneud Taliadau Debyd Uniongyrchol Misol ar gyfer eich Aelodaeth Gwersi Nofio**
 - I. Bydd methu gwneud eich taliadau Debyd Uniongyrchol misol yn arwain at eich aelodaeth gwersi nofio yn cael ei hatal. Ni fyddwch yn gallu mynd i wersi nofio na chael mynediad at nofio yn ystod amserau nofio cyhoeddus.
 - II. Gofynnir i chi wneud y taliad cyn gynted ag y bo modd naill ai yn y cyfleuster hamdden, dros y ffôn neu ar-lein.
 - III. Hyd yn oed os bydd eich Aelodaeth Gwersi Nofio yn cael ei hatal, rydych yn atebol i dalu o hyd.
 - IV. Pe bai amgylchiadau nas rhagwelir yn digwydd ac mae hyn yn effeithio ar eich gallu i dalu eich Debyd Uniongyrchol, cysylltwch â'r Tîm Aelodaeth i weld sut y gallwn eich cefnogi a dod o hyd i atebion er mwyn i chi allu cadw eich Aelodaeth Gwersi Nofio.

20. Aelodaeth Gwersi Tennis

- a. Rhaid llenwi ffurflen Aelodaeth cyn dechrau'r wers gyntaf.
- b. Rhaid talu wrth ymuno er mwyn sicrhau eich lle
- c. Cynigir lleoedd ar sail y cyntaf i'r felin
- d. Pa fydd Gwers Tennis yn llawn, bydd rhestr aros yn cael ei chreu.
- e. Os nad oes digon o bobl yn cofrestru ar gyfer gwers ac felly'n cael ei chanslo, bydd y Rheolwr Tennis yn awgrymu gwersi amgen i'r mynychwyr cyn i'r wers gael ei dileu.

- f. Mewn amgylchiadau eithriadol, gall Casnewydd Fyw rewi eich aelodaeth os na fyddwch yn mynychu dosbarthiadau hyfforddiant grŵp. Sylwch os byddwn yn rhewi eich aelodaeth, ni allwn warantu y bydd eich lle mewn gwers yn dal i fod ar gael.
- g. Fel arfer, bydd y gwersi'n cael eu cynnal ar y Cyrtiau Tennis Dan Do, ond rydym yn cadw'r hawl i symud gwersi i'r cyrtiau tu allan os oes angen.
- h. Bydd y gwersi'n cael eu cynnal ar yr amser a nodir waeth beth fo'r tywydd. Byddwn yn dal i chwarae yn y glaw os yw'n ddiogel i wneud hynny. Os oes angen, bydd hyfforddwyr yn defnyddio adnoddau tywydd gwael i barhau â'r dysgu oddi ar y cwrt.
- i. Rhaid i fynychwyr ddod ag offer/gwisgo dillad addas.
- j. Rhaid i chwaraewyr roi gwybod i ni am unrhyw gyflwr meddygol neu anabledd all fod yn berthnasol i'r oedolyn neu'r plentyn sydd wedi cadw lle mewn sesiwn. Rhaid i chwaraewyr hefyd roi gwybod i ni am unrhyw newid i gyflwr meddygol neu anabledd o'r fath neu os yw'n gwaethygu. Byddwn yn cadw'r wybodaeth hon yn gyfrinachol ac yn trin materion o'r fath gyda disgresiwn. Ein polisi yw cynnwys unrhyw unigolion o'r fath yn y gwersi ar yr amserlen lle bo'n bosibl, ond rydym yn cadw'r hawl i ganslo'r aelodaeth os na allwn yn anffodus fodloni anghenion yr unigolyn. Byddem yn ceisio cynnig opsiwn amgen lle bo'n bosibl.
- k. Rydym yn cadw'r hawl i wrthod mynediad i wers neu i rannu gwybodaeth am wers fwy addas os nad yw unrhyw gyfranogwr yn mynychu'r dosbarth mwyaf priodol i'w oedran a/neu gallu.
- l. Bydd unrhyw benderfyniad i ganslo gwers yn sgil amodau tywydd garw yn seiliedig ar y raddfa yr effeithir ar lwybrau teithio. Bydd y tîm rheoli yn gwneud unrhyw benderfyniad i ganslo mor hwyr ag sy'n rhesymol bosibl. Byddwn yn nodi hyn ar ein gwefan a'n cyfrifon cyfryngau cymdeithasol gan gynnwys Facebook a Twitter. Lle y bo'n bosibl, byddwn yn cysylltu â chwsmeriaid dros y ffôn/e-bost pan fydd penderfyniad i ganslo wedi'i wneud. Fel canlyniad olaf, dylai cwsmer ffonio 01633 656757. Cofiwch anawsterau o ran ceisio darogan tywydd Prydain. Ein bwriad cyffredinol yw cynnal cymaint o wersi â phosibl. Os oes rhaid canslo Gwersi Tennis, bydd Casnewydd Fyw yn ceisio cynnig sesiwn amgen lle bo'n bosibl.
- m. Cyfrifoldeb y Rhiant/Gwarcheidwad yw sicrhau bod gennym y manylion cyswllt mwyaf cyfredol. Rhowch wybod i ni cyn gynted â phosibl am unrhyw newid i'ch manylion cyswllt.
- n. Mae Casnewydd Fyw yn cadw'r hawl i newid neu ddiwygio'r Rhaglen Denis a strwythur y gwersi ar unrhyw adeg.
- o. Cyfrifir y Gwersi Tennis fel 50 wythnos wedi'u rhannu yn 12 taliad misol o ystyried y byddwn wedi cau am bythefnos dros y Nadolig.

TWTS TENIS

- a. Ar gael i blant 2.5 i 5 oed.
- b. Gall plant bach fynychu pob gwers Twts Tennis ar sail y cyntaf i'r felin.
- c. Awgrymir cadw lle ymlaen llaw.

TENIS IEUENCTID

- a. Ar gael i blant rhwng 5 ac 16 oed. (Plant 4 oed yn ôl disgresiwn yr hyfforddwyr ar sail gwahoddiad yn unig)
- b. Bydd plant sy'n cymryd rhan yn y gwersi ieuenctid yn cael eu goruchwyllo, ond ni allwn addo goruchwyllo'r plant sy'n defnyddio'r cyrtiau ar adegau eraill. Ni chaiff rhieni plant 7 oed neu iau adael y Ganolfan Denis yn ystod y wers.

- c. Rhaid i bob plentyn sydd wedi cadw lle ar wers ieuenctid ddod â dillad gwrth-dywydd ar y cwrs ar ddechrau'r wers.

TENIS I OEDOLION

- a. Ar gael i chwaraewyr 17 oed neu hŷn.
- b. Nid yw'r sesiynau Cynghair y Gaeaf yn rhan o'r Aelodaeth Tennis i Oedolion ac mae angen eu cadw a thalu amdanynt ar wahân.

21. Rhewi Aelodaeth Fisol

- a. Mae'n bosibl y bydd CF yn caniatáu i'ch Aelodaeth gael ei rhewi mewn achosion eithriadol ac yn ôl ei hawl i benderfynu. Mae'n bosibl y bydd hyn yn cynnwys achosion pan fydd cyflwr meddygol yn atal aelod rhag defnyddio cyfleusterau am gyfnod o fis o leiaf. Rydym yn cadw'r hawl i ofyn am dystiolaeth er mwyn cefnogi'ch cais cyn gwneud y penderfyniad.
- b. Dylid gwneud unrhyw gais i rewi aelodaeth i'r Tîm Aelodaeth Chwaraeon a Hamdden drwy ffonio 01633 656757 neu drwy e-bost i memberships@newportlive.co.uk o leiaf 5 diwrnod gwaith cyn y dyddiad pan rydych yn dymuno i'ch aelodaeth gael ei rhewi.

22. Newid Aelodaeth Fisol

- a. Rhaid i chi roi 28 diwrnod o rybudd os hoffech uwchraddio neu israddio eich aelodaeth.
- b. Rhaid i chi dalu unrhyw gynnydd o ran cost os ydych yn uwchraddio eich aelodaeth.
- c. Rhaid i chi ddangos dystiolaeth eich bod yn gymwys ar gyfer math yr aelodaeth newydd cyn gallu newid eich aelodaeth.
- ch. Nid oes modd ôl-ddyddio graddfa'r aelodaeth newydd i gwsmeriaid presennol.

23. Methu â Thalu'n Fisol

- a. Bydd methu gwneud eich taliadau Debyd Uniongyrchol misol yn arwain at atal eich aelodaeth. Ni fyddwch yn gallu bwcio ar-lein ac mae'n bosibl y byddwn yn gwrthod mynediad i chi i'r canolfannau hamdden.
- b. Gofynnir i chi wneud y taliad cyn gynted ag y bo modd naill ai yn y cyfleuster hamdden, dros y ffôn neu ar-lein.
- c. Os yw'r taliad heb ei dalu ar ddyddiad y debyd uniongyrchol nesaf, byddwn yn codi tâl am y ddau daliad.
- ch. Hyd yn oed os bydd eich aelodaeth yn cael ei hatal, mae'n rhaid i chi dalu.
- e. Mae'n bosibl y bydd methu â thalu isafswm nifer y taliadau'n arwain at benodi asiantaeth i gasglu'r arian sy'n daladwy. Byddwn yn disgwyl i chi dalu am y penodiad hwn.
- f. Mae'n bosibl y bydd eich taliadau sy'n orddyledus yn arwain at gyfarwyddo asiantaeth i gasglu'r arian sy'n daladwy. Byddwn yn disgwyl i chi dalu am y cyfarwyddyd hwn.

24. Canslo Aelodaeth Fisol

- a. Gallwch ganslo eich aelodaeth unrhyw bryd ar ôl y cyfnod isafswm.

- b. Rhaid i chi roi 10 diwrnod o rybudd eich bod am ganslo.
- c. Cewch ganslo mewn 2 ffordd
 - i. Drwy ffonio 01633 656757. Bydd angen i chi roi cyfeiriad e-bost dilys fel bod modd anfon y dderbynneb i chi.
 - ii. Drwy e-bostio memberships@newportlive.co.uk. Byddwch yn derbyn y dderbynneb ganslo dros e-bost.
 - iii. Mae'n bosibl y bydd methu canslo trwy'r dulliau hyn yn arwain atoch chi'n bod yn atebol am daliadau ychwanegol p'un ai a ydych yn defnyddio'r cyfleusterau ai peidio.
 - iv. Bydd angen i chi gadw'r dderbynneb ganslo yn ddiogel, oherwydd dyma'ch unig dystiolaeth eich bod wedi canslo'ch aelodaeth.

25. Aelodaeth Flaenorol

- a. Rydych yn cytuno ar adeg ymuno â'r Cynllun neu'n syth cynt, pan fyddwch wedi derbyn hysbysiad o'r cyfanswm sy'n weddill ac yn daladwy i GF dan unrhyw gynllun aelodaeth blaenorol eich bod yn rhoi caniatâd i GF i adennill y swm hwn yn rhan o'r taliad cyntaf fydd yn cael ei wneud drwy Ddebyd Uniongyrchol, a'ch bod chi'n cydnabod bod CF yn mynd i mewn i gytundeb newydd gyda chi am gynllun aelodaeth yn dibynnu ar y taliad hwn.

26. Cyffredinol

- a. Os bydd angen cysylltu â chi, byddwn yn e-bostio, ffonio neu'n ysgrifennu atoch gan ddefnyddio'r cyfeiriad a ddarparwyd gennych wrth i chi ymuno. Os yw'ch manylion cyswllt yn newid, rhaid i chi roi gwybod i ni cyn gynted â phosibl.
- b. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau parthed eich aelodaeth at y Tîm Aelodaeth, Casnewydd Fyw, Pwll Nofio Rhanbarthol a Chanolfan Tennis, Pentref Chwaraeon Rhyngwladol Casnewydd, Casnewydd, NP19 4RA. Rhif Ffôn: 01633 656757. E-bost memberships@newportlive.co.uk
- c. Nid yw'r Telerau a'r Amodau hyn yn effeithio ar eich hawliau statudol.
 - i. Os bydd llys, triwlynlys neu gorff gweinyddol o awdurdodaeth gymwys yn gweld bod unrhyw un o'r telerau hyn yn hollol neu'n rhannol anghyfreithlon, annilys, di-rym, na ellir eu gorfodi neu'n afresymol, cânt eu gweld yn neilltuoel ac ni fyddant yn effeithiol ar ddilysrwydd neu orfodadwyedd y Telerau a'r Amodau eraill.
 - ii. Caiff y Telerau a'r Amodau hyn eu llywodraethu a'u dehongli yn unol â Chyfreithiau Cymru a Lloegr ac mae'r partïon yn cytuno i gyflwyno unrhyw anghydfodau i awdurdodaeth unigryw Llysoedd Cymru a Lloegr.
 - iii. Mae hyn yn gytundeb gwasanaeth.